**EITEM AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**15fed Tachwedd 2007**

**ADOLYGIAD O BENSIYNAU**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Darparu gwybodaeth i Aelodau am sefyllfa bresennol y trefniadau ariannu ar gyfer cynllun Pensiwn newydd yr Diffoddwyr Tân. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried effaith y cynllun pensiwn newydd ar Ddarpariaeth Bensiwn yr Awdurdod.

**Trefniadau Cyllido ar gyfer Cynllun Pensiwn newydd yr Diffoddwyr Tân**

**2.** Ar 1 Ebrill 2007 daeth trefniadau cyllido newydd cynllun pensiwn yr Diffoddwyr Tân i rym. Yn flaenorol roedd y cynllun yn cael ei weithredu ar sail 'talu wrth ennill', gyda phensiynau'n cael eu talu allan o'r cyfrif refeniw a chyfraniadau gan Diffoddwyr tân yn cael eu talu i mewn iddo. Cost net y cynllun yn 2006-07 oedd £3,720,731.

**3.** O dan y trefniadau newydd, telir cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr i Gyfrif Pensiwn lleol Diffoddwyr Tân ar wahân a weinyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Hefyd fe wneir 'taliad' am bob achos o ymddeol ar sail salwch dros gyfnod o 3 blynedd. Mae pensiynau, cyfandaliadau a budd-daliadau eraill sy'n daladwy o dan Gynllun Pensiwn yr

**Trefniadau Cyllido ar gyfer Cynllun Pensiwn newydd yr Diffoddwyr Tân** *(parhad)*

Diffoddwyr Tan yn cael eu talu allan o'r cyfrif. Os bydd yr incwm yn llai na'r hyn a delir allan bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n talu'r ychwanegiad. Yn groes i hyn,  bydd unrhyw arian sy'n weddill yn y cyfrif yn cael ei dalu'n ôl i LyC.

**4.** Mae dyfarniadau tâl ar gyfer anafiadau ac iawndal, rhai presennol a newydd, yn cael eu talu allan o gyfrif refeniw'r Awdurdod ac nid o'r Cyfrif Pensiwn.

**5.** Mae'r tabl canlynol yn amcangyfrif o ffigurau terfynol Cyfrif Pensiwn 2007-08.

| Cronfa Bensiwn | Incwm £ | Gwariant £ | Balans £ |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau Pensiwn Gweithwyr | -1,149,891 | | |
| Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | -2,117,646 | | |
| Tâl ar gyfer Salwch | -155,126 | | |
| Taliadau Pensiwn (ac eithrio Anafiadau) | | 3,937,120 | |
| Cyfansymiau | | 1,087,499 | |
| **Grant Ychwanegol** | | | **1,601,956** |

**Amcangyfrif o Grant Ychwanegol LlyC**

**6.** Yr amcangyfrif presennol gan LyC ar gyfer y Grant Ychwanegol yw £2,158,000, gwahaniaeth o £556,044 i'r ffigurau terfynol a amcangyfrifir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**7.** Roedd y cyllid cychwynnol ar gyfer y Grant Ychwanegol drwy leihad yn y Grant Cynnal Refeniw i'r Awdurdodau Unedol, y swm a dynnwyd allan ar gyfer 2007-08 oedd £1,768,000 (ar gyfer Gogledd Cymru), gyda LlyC yn talu unrhyw ddiffyg.

## Amcangyfrif o Grant Ychwanegol LlyC *(parhad)*

**8.** Nid oedd y cyfrifiadau cychwynnol ar gyfer y grant ychwanegol gan Adran Actwari'r Llywodraeth yn cynnwys unrhyw Staff Dyletswydd Wrth Gefn oedd yn ymuno â'r cynllun, ac nid oedd darpariaeth ar gyfer cyfraniadau salwch oedd yn daladwy cyn 1 Ebrill 2007.

## Cysoni Gwahaniaethau Grant Ychwanegol

**9.** Yn sgil y Staff Dyletswydd Wrth Gefn yn ymuno â'r cynllun crëwyd incwm ychwanegol i Gyfrif y Gronfa Bensiwn drwy'r cyfraniadau gan y cyflogwr - amcangyfrifir eu bod dod i £153k a bod cyfraniadau gweithwyr yn dod i £118k. Ni chyllidwyd ar gyfer cost cyfraniad y cyflogwr yn 2007-08 ac ni roddwyd unrhyw gyllid ychwanegol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer cyfraniad y cyflogwr tuag at Staff Dyletswydd Wrth Gefn. Ni chafodd hyn ei gynnwys yn Setliad y Grant Cynnal Refeniw er ei fod yn amlwg yn gost yn deillio o newid deddfwriaethol y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub. Y tâl ar gyfer salwch ar gyfer ymddeoliadau cyn 1 Ebrill 2007 yw £155k. Mae hyn eto'n darparu incwm ychwanegol i Gyfrif y Gronfa Bensiwn na roddwyd unrhyw gyllid ar ei gyfer i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**10.** Gan fod amcangyfrif LlyC ar gyfer y Grant Ychwanegol yn seiliedig ar set wahanol o dybiaethau, mae'n rhesymol awgrymu y dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ofyn i LyC ad-dalu rhywfaint o'r 426k o incwm ychwanegol i Gyfrif y Gronfa Bensiwn sydd wedi dod o daliadau ychwanegol i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

### Taliadau'r Cyfrif Refeniw

**11.** Mae'r gyllideb a'r ffigurau terfynol presennol ar gyfer y taliadau pensiwn a wneir yn uniongyrchol i'r cyfrif refeniw fel a ganlyn:

| Cyfrif Refeniw | Cyllideb £ | Ffigurau Terfynol £ | Diffyg £ |
|---|---|---|---|
| Tâl ar gyfer Salwch | 67,000 | 155,126 | |
| Pensiynau Anafiadau | 100,000 | 131,642 | |
| Cyfandaliadau ar gyfer Anafiadau | 20,000 | 0 | |
| Pensiwn Salwch Staff Wrth Gefn | 80,000 | 117,007 | |
| | **267,000** | **403,775** | **136,775** |

**12.** Yn ôl yr arwyddion presennol ni fydd unrhyw achosion o ymddeol ar sail Salwch yn 2007-08, felly ni fydd taliadau salwch i Gyfrif y Gronfa Bensiwn eleni. Fodd bynnag, nid yw cyllideb refeniw y flwyddyn nesaf ar gyfer taliadau pensiwn wedi cynyddu (cyllideb wreiddiol £333.5k) ac, o ystyried y taliadau y gwyddom amdanynt ar gyfer Pensiynau Anafiadau a Staff Dyletswydd Wrth Gefn, y swm sy'n weddill ar gyfer y tâl Salwch yw £65k. Fel enghraifft o'r taliadau posibl - pe bai 2 Ymladdwr Tân ac 1 Swyddog yn ymddeol ar haen isaf Salwch yn 08-09, byddai'r tâl Salwch ar gyfer y flwyddyn honno tua £77k. I liniaru'r risg yma mae'n hanfodol bod rhywfaint o'r Ddarpariaeth Bensiwn yn cael ei chadw ar gyfer unrhyw daliadau a wneir sydd o bosibl yn fwy na'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y gyllideb refeniw.

### Darpariaeth Bensiwn

**13.** Y balans ar y Ddarpariaeth Bensiwn yw £580,044. Ond fel yr amlinellir uchod, mae diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2007-08 ac fel y cymeradwywyd gan Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 18 Rhagfyr 2006, bydd angen £290k o'r Ddarpariaeth Bensiwn ar

**Darpariaeth Bensiwn** *(parhad)*

gyfer y costau, £153k ar gyfer cyfraniad y cyflogwr tuag at staff dyletswydd wrth gefn i'r gronfa bensiwn, a £137k ar gyfer y diffyg yn y gyllideb ar gyfer y taliadau pensiwn i'r cyfrif refeniw. Mae hyn yn gadael balans o £290k ar gyfer taliadau ymddeoliadau ar sail Salwch yn y dyfodol.

**Argymhellion**

**14.**

- Dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n awr negydu â LlyC i ofyn iddo ad-dalu rhywfaint o'r 426k o incwm ychwanegol i Gyfrif y Gronfa Bensiwn sydd wedi dod o daliadau ychwanegol i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Cytuno i gwrdd â chost y taliadau pensiwn ychwanegol yn 2007-08 o'r Ddarpariaeth Bensiwn (ar hyn o bryd amcangyfrifir ei fod yn £290k).
- Cadw balans y Ddarpariaeth Bensiwn i liniaru risg taliadau Salwch yn y dyfodol.